# Hysbysebion Swyddi: Arferion Gorau

## Sicrhewch nad yw eich deunyddiau:

- ✗ Yn rhy gymhleth
- ✗ Yn llawn testun
- ✗ Yn llawn jargon
- ✗ Yn achosi gorlethu gweledol

## Sicrhewch fod eich deunyddiau:

- ✓ Wedi'u hysgrifennu mewn ffont sans serif, maint 12pt neu fwy
- ✓ Yn cynnwys digon o gyferbyniad rhwng lliw y ffont a'r cefndir
- ✓ Yn cyd-fynd â rhaglenni darllen sgrin a thechnolegau cynorthwyol eraill
- ✓ Yn cynnwys pwyntiau bwled, lle bo'n bosibl
- ✓ Yn cynnwys testun amgen ar luniau, os oes rhai.

Anaml iawn y bydd ymgeiswyr niwrowahanol yn awyddus i ymgeisio am swyddi gyda chyflogwyr na chredant a fydd yn deall neu'n gwerthfawrogi eu gwahaniaeth. Cyhoeddwch ddatganiad hygyrchedd ar eich hysbyseb sy'n nodi'n glir eich bod yn annog unigolion niwrowahanol i ymgeisio. Mae hyn yn dangos i ymgeiswyr eich bod yn croesawu ceisiadau gan ystod o unigolion gydag arddulliau meddwl amrywiol.

Gall fod mor syml â'r canlynol:

